Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru | South Wales Fire and Rescue Service

**Trydanwr Cerbydau**

**Cyfeirnod y Swydd 504884**

**GRADD 9: CYFLOG £30,151 - £32,020**

**Parhaol**

**37 awr yr wythnos**

Cododd y swydd wag parhaol uchod o fewn Adran Fflyd a Pheirianneg a leolir ym Mhencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Parc Busnes Forest View, Llantrisant, Rhondda Cynon Taf, CF72 8LX. Mae Gwasanaethau Fflyd a Pheirianneg yn cynnal fflyd gyfansymiol o gerbydau o tua 450 uned ynghyd â 1,000 o eitemau o offer peiriannau trymion arbenigol gan gynnwys peiriannau trymion gweithredol ac ysgolion achub.

Bydd deiliad y swydd yn gyfrifol am ddiagnosteg ac atgyweirio systemau trydanol o ddydd i ddydd, a gosod systemau rhybuddio golau glas gweledol a chlywadwy ill dau. Yr oriau gwaith yw Dydd Llun i Ddydd Iau 0800 i 1630 o'r gloch a Dydd Gwener 0800 i 1300 o'r gloch, gyda hanner awr i ginio bob dydd. Bydd yn ofynnol i ddeiliad y swydd gymryd rhan yn system wrth gefn brys ar alwad 24 awr y dydd, a fydd yn cynnwys rhai oriau anghymdeithasol a gwaith penwythnos. Mae’r rôl hon yn cynnwys teithio cyson rhwng lleoliadau ar draws ardal De Cymru, gan ddefnyddio trafnidiaeth y Gwasanaeth.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gallu dangos y sgiliau a'r profiad canlynol:

- Cymhwyster y Ddinas a'r Urddau neu NVQ Lefel 3 mewn Cerbydau Trydanol neu brofiad perthnasol yn y diwydiant.
- Profiad o ddiagnosteg, canfod diffygion, atgyweirio a chynnal a chadw holl gerbydau modern mawr sy'n seiliedig ar wneuthurwyr a systemau trydanol peiriannau.
- Y gallu i ddarllen a deall sgematig trydanol.
- Y gallu i osod systemau golau brys.
- Trwydded Yrru Categori B ddilys lawn y DU.

Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus fod yn destun gwiriad Trwydded Yrru boddhaol, gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), Prawf Cyffuriau ac Alcohol a Sgrinio Meddygol cyn y gwneir penodiad.

Mae sgiliau Iaith Gymraeg yn ddymunol ar gyfer y swydd hon ond nid yn hanfodol.

Dylid llenwi Ffurflen Gais ar-lein trwy ein system e-recriwtio, y gellir ei chyrchu trwy ein gwefan: https://www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-gyda-ni/lswyddi-gwag-diweddarach/
Os bydd angen fersiwn bapur arnoch chi mae croeso i chi anfon e-bost: personél@decymru-tan.gov.uk

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais yw **13/04/2023 am 12:00 ganol dydd.**

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac rydym yn croesawu gohebiaeth yn y naill iaith neu'r llall. Ni chaiff ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol. Bydd ymgeiswyr sy'n llwyddo cyrraedd y cam Llunio'r Rhestr Fer yn cael y cyfle i gadarnhau eu dewis iaith ar gyfer cyfweliadau ac asesiadau (gan gynnwys gwaith papur, cyflwyniadau llafar, a chwestiynau cyfweliad). Bydd trefniadau’n cael eu cadarnhau yn dilyn gwahoddiad i gyfweliad a gallant gynnwys Cyfieithu a/neu Gyfieithu ar y Pryd.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac rydym yn dymuno annog yn rhagweithiol ymgeiswyr o bob sector cymdeithas i ymgeisio.

hyderus o ran anabledd YMRODDEDIG